Ms Janet Finch-Saunders AC - Aelod Cynulliad dros Aberconwy

3 Ionawr 2017

Annwyl Ms Finch-Saunders

Swyddfa Bost Betws-y-coed®
Ffordd Caergybi, Betws-y-coed, LL24 0AA

Newidiadau i Swyddfa Bost® Betws-y-coed

Yn ddiweddar gofynnwyd ichi am eich barn ynglŷn â'n cynlluniau i newid y Swyddfa Bost uchod i fod yn un o'n canghennau lleol ffasiwn newydd.

Erbyn hyn rydym wedi cwblhau ein cynlluniau ac mae'ch Swyddfa Bost ar ei newydd wedd i fod i agor yn y lleoliad presennol ddydd Llun 6 Chwefror 2017 am 13:00.

Er mwyn i hyn ddigwydd, bydd rhaid cau'r gangen i'w hadnewyddu ddydd Sadwrn 21 Ionawr 2017 am 12:30. Fodd bynnag, bydd y canghennau a ganlyn yn falch o ddarparu gwasanaethau Swyddfa'r Post i gwsmeriaid yn ystod y cyfnod hwn. Pe bai'r dyddiadau hyn yn newid, bydd posteri'n cael eu gosod yn y gangen er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

- Swyddfa Bost Llanrwst, Sgwâr Ancastor, Llanrwst, LL26 0LD
- Swyddfa Bost Trefriw, LL27 0JJ

Pan fydd y gangen newydd yn agor, bydd cwsmeriaid yn elwa ar wasanaeth Swyddfa'r Post sydd newydd ei foderneiddio ac oriau agor estynedig:

Llun–Sul 08:00–22:00

Rwyf hefyd wedi amgáu taflen wybodaeth sy'n amlinellu'r prif sylwadau a gawsom am ein cynlluniau a'n hymateb i'r rhain. Mae'r daflen hon ar gael yn y gangen, ac mae yna bosteri hefyd sy'n rhoi gwybod i gwsmeriaid am y newid.

Mae copi o'n cynlluniau terfynol ar gyfer y gangen hon ar gael ar ein gwefan yn www.co.uk.postofficeviews.co.ukco.uk. Wrth gyrraedd y wefan, gofynnir ichi gofnodi'r cod ar gyfer y gangen hon: 42561499

Os oes gennych sganiwr QR ar eich ffon, sganiwch yma i fynd yn syth i'r safle:

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ,
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig

PostOffice.co.uk

Diolch i chi am eich amser.

Yr eiddoch yn gywir

Sue Whittall
Rheolwr Ardal

Canghennau eraill:

Swyddfa Bost Llanrwst
Martin McColls
Sgwâr Ancastor
Llanrwst
LL26 0LD

Oriau agor:

Llun	09:00 – 17:30
Mawrth	09:00 – 17:30
Mercher	09:00 – 17:30
Iau	09:00 – 17:30
Gwener	09:00 – 17:30
Sadwrn	09:00 – 17:30

Gwasanaethau
Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, yn ogystal â chyfleusterau Bureau de Change Ar Gais cynhwysfawr.

Mynediad a chyfleusterau
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a mynediad gwastad wrth y fynedfa.

Trafnidiaeth/parcio
Mae yna barcio â chyfyngiadau amser gerllaw. Mae yna wasanaeth bws rheolaidd ar gael rhwng cangen Betws-y-coed a'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn. Mae'r arhosfan bysiau agosaf o fewn 120 metr i Swyddfa Bost Llanrwst.

Llwybr
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 3.8 milltir o gangen Betws-y-coed, ar hyd tir amrywiol ei natur.

Swyddfa Bost Trefriw
Trefriw
Conwy
LL27 0JJ

Oriau agor:

Llun	08:30 – 15:30
Mawrth	09:00 – 13:00
Mercher	09:00 – 13:00
Iau	09:00 – 12:00
Gwener	09:00 – 14:00

Gwasanaethau
Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, ac eithrio Treth y car, y Loteri Genedlaethol, Yswiriant Teithio Ar Gais, Newid Doleri Ar Gais a chyfleusterau Gwirio ac Anfon Pasbort.

Mynediad a chyfleusterau
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a mynediad gwastad wrth y fynedfa.

Trafnidiaeth/parcio
Mae modd parcio am gyfnod cyfyngedig y tu allan i'r gangen. Mae yna wasanaeth bws rheolaidd ar gael rhwng cangen Betws-y-coed a'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn. Mae'r arhosfan bysiau agosaf o fewn 50 metr i Swyddfa Bost Llanrwst.

Llwybr
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 5 milltir o gangen Betws-y-coed, ar hyd tir amrywiol ei natur.

Mae Swyddfa Bost® Betws-y-coed yn newid

Yn ddiweddar gofynnwyd ichi am eich barn ynglŷn â'n bwriad i newid eich Swyddfa Bost i fod yn un o'n canghennau **lleol** ar eu newydd wedd. Cawsom **un** ymateb i'r newidiadau posibl ac erbyn hyn rydym wedi cwblhau ein cynlluniau ar gyfer y newid i'ch cangen. Er nad yw'n bosibl ymateb i bob mater unigol a godwyd, mae yna grynodeb isod o'r prif sylwadau a gawsom.

Gofynnwyd pam eich bod yn defnyddio'r Swyddfa Bost hon a beth ydych yn hoffi ynglŷn â hi.

Ni chafwyd unrhyw sylwadau gennych ynglŷn â pham rydych yn defnyddio'r Swyddfa Bost hon a'r hyn rydych yn hoffi amdani.

Bydd yn dda gennych glywed na fydd y rhan fwyaf o'r hyn rydych chi'n hoffi ynglŷn â'ch cangen yn newid. Mae'ch gweithredydd newydd yn awyddus i ddarparu'r un safon uchel o wasanaeth ag sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd. Mae'r fformat lleol newydd yn symlach nag yw'r drefn mewn Swyddfa Bost draddodiadol. O dan y drefn newydd, bydd cynhyrchion a gwasanaethau'n cael eu trafod yn awtomataidd fel bod y gwasanaeth i gwsmeriaid yn gynt ac yn fwy effeithlon.

Gofynnwyd ichi am eich sylwadau ynglŷn â'r newidiadau i'r gangen.

Ni wnaethoch unrhyw sylwadau am y newidiadau i'r gangen.

Bydd y Swyddfa Bost leol newydd yn gweithredu o gownter cynllun-agored wrth dil y siop. Bydd hyn yn darparu amrediad eang o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ochr yn ochr â thrafodion manwerth.

Gofynnwyd am eich sylwadau ynghylch unrhyw newidiadau i'r oriau agor.

Ni wnaethoch unrhyw sylwadau am newidiadau i'r oriau agor.

Mae gennym dros 2000 o ganghennau eisoes sy'n cynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y ffordd newydd hon. Mae cwsmeriaid yn dweud wrthym eu bod yn hoffi'r oriau agor estynedig sy'n cael eu cynnig gan ganghennau lleol ar eu newydd wedd. Mae hyn yn golygu y gall cwsmeriaid ddewis ymweld â'u cangen leol pan mae'n gyfleus iddyn nhw, un ai yn gynnar yn y bore, yn ystod y dydd, neu'n hwyrach gyda'r nos. Mae hyn hefyd yn golygu bod llai o bobl yn yr adeilad ar yr un pryd.

Gofynnwyd ichi am eich sylwadau ynglŷn â sut fyddwch chi'n cael hyd i gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post na fydd ar gael mwyach yn y gangen os bydd y newid yn digwydd.

Nid oedd gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â sut byddwch chi'n cael hyd i gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post na fydd ar gael mwyach yn y gangen os bydd y newid yn digwydd.

Mae'n dda gennyf roi gwybod ichi ein bod yn gwella'r dewis o gynhyrchion a fydd ar gael yn y gangen newydd, a bydd cwsmeriaid yn dal i allu defnyddio cyfleusterau bancio â phapur, Transcash, a Gwasanaethau Parseli'r Post Brenhinol a Parcelforce Worldwide. Yn ogystal, bydd sieciau'n dal i fod yn dderbyniol ar gyfer talu.

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ,
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig

Pan fydd y Swyddfa Bost ar gau, bydd modd o hyd ichi gael gwasanaethau Swyddfa'r Post yn Swyddfa Llanrwst.

Gofynnwyd ichi am eich sylwadau ynglŷn â'r cyfnod cau yn ystod yr adnewyddu neu ynglŷn â defnyddio canghennau eraill yn yr ardal.

Dywedoch ... yr hoffech weld y cyfnod cau arfaethedig yn cael ei ohirio tan ddiwedd y tymor gwyliau

Rydym yn sylweddoli y bydd cau'r gangen, hyd yn oed am gyfnod byr, yn anghyfleus, ac rydym yn ymddiheuro am hyn. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r gweithredydd i wneud yn siŵr y bydd y gangen ar gau am gyfnod mor fyr â phosibl, a gwnawn yn siŵr fod manylion am y canghennau eraill agosaf yn cael eu harddangos a bod sylw'n cael ei dynnu atynt. Rydym hefyd wedi rhoi rhybudd bythefnos o flaen llaw am y cyfnod cau fel bod gennych amser i wneud y trefniadau angenrheidiol.

Hoffem ddiolch i bawb a fanteisiodd ar y cyfle i roi eu barn inni am y newidiadau.

Sut i gysylltu â ni:

postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

Llinell Gymorth I Gwsmeriaid:
03457 22 33 44
Ffôn Testun: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments

Sylwch, os gwelwch yn dda, mai hwn yw'r cyfeiriad llawn i'w ddefnyddio ac nad oes angen manylion cyfeiriad eraill.

Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun terfynol ar-lein. I'w weld, sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa ap.

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03457 22 33 44 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.